# Ystlumod Prydain yn gryno

## Beth yw ystlumod?

Mamaliaid rhyfeddol yw ystlumod. Mae ganddynt fywyd cymdeithasol cymhleth a gallant fyw hyd at 30 mlynedd. O’r 17 rhywogaeth yn y DU mae llawer yn prinhau wrth i’w mannau clwydo a chwilota am fwyd ddiflannu.

## Sut maent yn hela?

Nid yw’r gred bod ystlumod yn ddall yn gywir, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gweld yn dda. Maent yn defnyddio system hynod o soffistigedig o’r enw ecoleoli i’w helpu i ddod o hyd i’w hysglyfaeth yn y tywyllwch. Golyga hyn eu bod yn anfon allan synau uchel sy’n bowndio oddi ar wrthrychau ac yn datgelu lleoliad pryfed a rhwystrau.

## Ym mhle maent yn byw?

Ymysg eu cartrefi yn ystod yr haf mae lle gwag mewn toeau, ceubrennau a hyd yn oed dai cyfoes. Yn y gaeaf, mae’r ystlumod yn symud i fannau oerach gyda thymheredd cyson fel ogofau a hen fwyngloddiau. Gall cannoedd o unigolion gasglu ynghyd mewn clwydfan y gaeaf. Mae ystlumod yn famau arbennig ac yn aml maent yn bwydo’r rhai bach ar y fron yng nghwmni benywod eraill. Gallwch eu gwylio drwy gyfrwng camera ystlumod byw mewn meddiannau penodol o eiddo’r YG. Mae’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn falch fod ystlumod yn gysylltiedig â phob un o’i meddiannau.

# British bats in brief

## What are bats?

Bats are extraordinary mammals that have complex social lives and can live up to 30 years. There are 17 species in the UK. Many bat species are declining due to loss of roosts and foraging areas.

## How do they hunt?

The saying ‘blind as a bat’ is misleading as most bats can see well, but they use a highly sophisticated system called echolocation to help find prey in the dark. They send out high-pitched sounds that bounce off objects revealing the location of insects and obstacles.

## Where do they live?

Roof spaces, tree hollows and even modern houses are their summer homes. In winter, bats move to cooler places with stable temperatures like caves and old mines. Several hundred individuals can congregate in a winter roost. Bats are superb mothers and often nurse young with other females. Watch them via ‘batcams’ in selected NT houses. The National Trust is pleased to have bats associated with all its properties.

# Teithiau ystlumod

Yn ystod yr haf, gallwch fynd am dro gyda’r nos gyda’n harbenigwyr bywyd gwyllt, gweld ystlumod yn hela dros ddŵr a gwrando ar eu galwadau wrth ddefnyddio datguddwyr ystlumod. Ewch i **www.nationaltrust.org.uk/events**. Hefyd, mae dros 100 o grwpiau ystlumod lleol yn trefnu digwyddiadau ar hyd a lled y DU.

Mae pob un o ystlumod y DU a’u clwydfannau yn cael eu gwarchod gan y gyfraith. Mae’n anghyfreithlon i beri niwed iddynt neu aflonyddu arnynt, na chwaith newid eu clwydfannau’n fwriadol heb geisio cyngor – ffoniwch Llinell Wybodaeth yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod ar **0845 1300 228**.

**www.bats.org.uk • www.nationaltrust.org.uk/hiddennature**

Am fformat gwahanol ffoniwch **01793 817 744** neu ebostiwch **nature.technician @nationaltrust.org.uk**

Mae’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn elusen gofrestredig, rhif 205846.
Mae’r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod yn elusen gofrestredig, rhif 1012361.
Ysgrifennwyd gan Gemma Hall. Cynllun gan E&P. Clawr blaen: ystlum hirglust gan John Altringham/BCT.

# Bat walks

In summer, take an evening stroll with our wildlife experts, see bats hunting over water and pick up their calls using bat detectors. Go to **www.nationaltrust.org.uk/events**. There are also 100 local bat groups that organise events around the UK.

All British bats and their roosts are protected by law. It is illegal to harm or disturb bats, or deliberately alter their roost sites without seeking advice – call the Bat Conservation Trust’s Bat Helpline on **0845 1300 228**.

**www.bats.org.uk • www.nationaltrust.org.uk/hiddennature**

For alternative formats call **01793 817 744** or email **nature.technician @nationaltrust.org.uk**

The National Trust is a registered charity, no. 205846. The Bat Conservation Trust is a registered charity, no. 1012361. Written by Gemma Hall. Design by E&P.
Front cover: brown long-eared bat by John Altringham/BCT.

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

# DARGANFOD YSTLUMOD
# DISCOVER BATS

Bat Conservation Trust



Nature PL



Ystlum pedol lleiaf

Lesser horseshoe

## Ystlum y dŵr

Os gwelwch chi ystlum yn hedfan yn isel ac yn wastad uwchben pwll neu afon, mae'n debyg mai ystlum y dŵr yw (isod). Mae hwn yn tueddu i fyw mewn coedlannau agored sy'n agos at ddŵr. Mae blew ei fron yn lliw arian ac ambell dro fe welwch ei adlewyrchiad egwan. Edrychwch yn fanwl ac efallai y gwelwch ystlum y dŵr yn gafael mewn pryfed ar wyneb y dŵr gyda'i draed.

## Daubenton's

If you see a bat flying low and steady over a pond or river, chances are it is a Daubenton's or 'water' bat (below). They tend to live in open woodlands not far from water. Their chest fur is silvery and sometimes you can see its pale reflection. Watch closely and you may witness a Daubenton's bat grabbing insects from the surface with its feet.



Ystlum y dŵr

Daubenton's

JJ Kaczanow/BCT

## Ystlumod pedol

Fel y syniad arferol o ystlumod, mae ystlumod pedol yn lapio eu hadenydd o amgylch eu cyrff wrth orffwys. Mae eu strwythur wyneb rhyfedd, tebyg i ddisg, yn rhan o'u system ecoleoli. Wrth hela, byddant yn gwylio eu hysglyfaeth o glwyd reolaidd ac yn hedfan oddi yno i ddal pryfed fel gwyfynod. Prinhaodd yr ystlumod pedol mwyaf a'r lleiaf yn gyflym yn ystod yr 20fed ganrif ac maent yn gyfyngedig i dde orllewin Lloegr a Chymru (gwelir y lleiaf hefyd yng ngorllewin Iwerddon) er ei bod yn ymddangos bod eu nifer wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'r ystlum pedol mwyaf tua'r un maint â gellygen a dyma'r ystlum mwyaf yn Ewrop.

## Horseshoes

Like popular portrayals of bats, horseshoes (left) wrap their wings around their body when resting. They have a peculiar disk-like facial structure which is related to their echolocation system. When hunting, they will watch prey from a regular perch and fly out to catch insects such as moths. Both the greater and lesser horseshoes declined sharply during the 20th century and are confined to southwest England and Wales (lesser also in west Ireland) though numbers appear to have increased in recent years. The greater horseshoe is the size of a pear and one of the largest bats in Europe.

## Hirglust

Mae synau ecoleoli'r ystlum hirglust yn ddistaw iawn a dyma pam y caiff ei adnabod hefyd fel yr 'ystlum sy'n sibrwd'. Mae'r ystlum hirglust (isod) yn byw ledled y DU ond mae'r ystlum hirglust llwyd yn hynod o brin ac yn byw yn ne Lloegr er bod y rhywogaeth yn symud tua'r gogledd wrth i'r hinsawdd gynhesu, mae'n debyg. Mae gan y ddwy rywogaeth glustiau hir iawn sy'n cael eu plygu o dan eu hadenydd wrth iddynt orffwys. Yn aml bydd yr ystlum hirglust yn hedfan yn araf ymysg deiliach, gan fachu pryfed oddi ar ddail a rhisgl.

## Long-eareds

Also known as 'whispering bats' because their echolocation sounds are very quiet. The brown long-eared (below) is found throughout the UK but the grey long-eared is very rare and only inhabits southern England, though the species may well move north as our climate warms. Both have very long ears that they tuck under their wings when resting. Brown long-eared bats in particular will often fly slowly amongst foliage, picking insects off leaves and bark.



Ystlum hirglust

Brown long-eared

Hugh Clark/BCT

NaturePL



Ystlum lleiaf

Pipistrelle

## Ystlum lleiaf

Yr ystlum lleiaf yw'r mwyaf cyffredin o'r holl rywogaethau. Yn aml fe glwyda mewn adeiladau modern ac fe'i gwelir yn curo'i adenydd yn gyflym fel glöyn byw. Mae'n fach iawn – tua maint bawd – ac mae'n hawdd i'w weld wrth iddi dywyllu. Mae'r tair rhywogaeth (cyffredin, soprano a Nathusius) yn hedfan yn ddiamcan, gan hela pryfed fel gwybed mân a chlêr Mai ar yr adain. Bydd pob ystlum yn bwyta hyd at 3,000 o bryfed!

## Pipistrelles

Fluttering like large butterflies, pipistrelles (above) are the most commonly encountered British bat and often roost in modern buildings. They are tiny – the size of a thumb – and easy to see as the light falls. All three species (common, soprano and Nathusius') fly erratically, pursuing bugs such as midges and mayflies on the wing. In a night, each bat will consume up to 3,000 insects!

## Ystlum Natterer

Yn byw ledled Ynysoedd Prydain, mae ystlumod Natterer i'w gweld ym mhob ardal ond ychydig a wyddys amdanynt. Fe'u gwelir ambell dro yn hedfan uwchben dŵr (mae'r un yma'n yfed). Serch hynny, fe'u gwelir yn bennaf mewn coedlannau lle maent yn hedfan gyda rheolaeth sicr o amgylch y coed, gan godi pryfed oddi ar y dail neu eu dal wrth hedfan.

## Natterer's

Found throughout the Britain and Ireland, Natterer's bats are cosmopolitan creatures but little is known about them. They are sometimes seen over water (pictured here drinking) but mostly in woodlands where they fly with great control about trees, picking off insects and catching others in flight.



Ystlum Natterer

Natterer's

NaturePL